

---

# Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Hydref 2018

---

**ADRODDIAD**

Dyddiad Cyhoeddi: 2 Hydref 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

Dyma'r ail ddiweddariad interim i'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd diwethaf (Rhagfyr 2017). Mae'n rhoi manylion ynghylch sut mae darpariaeth rhwydweithiau symudol a band eang ledled y DU a'i gwledydd wedi dod yn ei blaen ers ein Hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol a'r diweddariad interim cyntaf ym mis Ebrill 2018.

Gan fod cyfathrebiadau'n dod yn fwy a mwy pwysig yn ein bywydau, mae'n rhaid i'r seilwaith sy'n eu cynnal allu ymdopi ag anghenion pobl a busnesau.

Rhan o rôl Ofcom yw helpu i sicrhau bod pobl ar draws y DU yn gallu cael gwasanaeth rhyngwryd teilwng, a gallu ffonio yn lle bynnag a phryd bynnag y bydd angen iddyn nhw wneud hynny.

Mae'r diweddariad hwn yn dilyn cynnydd darparwyr cyfathrebiadau wrth iddyn nhw ddarparu mwy o wasanaethau cyfathrebu, ac yn nodi sut mae rhwydweithiau'r DU yn ymateb i anghenion pobl a busnesau wrth iddyn nhw newid.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb o ddatblygiadau allweddol	1
2. Dangosfyrddau	10
3. Gwasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn – dangosfyrddau	20

# 1. Crynodeb o ddatblygiadau allweddol

- 1.1 Mae Adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd Ofcom yn dilyn cynnydd o ran gwella argaeledd gwasanaethau telegyfathrebu ledled y DU a'i gwledydd. Eleni, rydym yn cyhoeddi dau ddiweddariad ychwanegol i'r adroddiad llawn i ddilyn cynnydd drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y cyntaf ei gyhoeddi ym mis Ebrill<sup>1</sup> ac mae'r ail ddiweddariad yma'n amlinellu'r datblygiadau o ran darpariaeth symudol a band eang sefydlog ers hynny.
- 1.2 Mae'r diweddariad hwn yn nodi'r cynnydd cyson o ran y gwasanaethau symudol a band eang sefydlog sydd ar gael. Mae mwy o bobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau gwell a chyflymach, ac mae'r gyfran o'r rheini nad ydynt yn gallu cael darpariaeth symudol dda neu fand eang teilwng yn parhau i leihau.
- 1.3 Ond rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o bobl yn methu cael gafael ar y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys enghreifftiau o sut mae Ofcom, llywodraethau ledled y DU, a diwydiant yn gweithio i wella darpariaeth symudol a band eang.
- 1.4 Mae'r data sy'n cefnogi'r adroddiad hwn wedi cael ei ddefnyddio hefyd i ddiweddarau'r ap gwirio darpariaeth ar gyfer ffonau clyfar a dyfeisiau tabled<sup>2</sup>, sy'n helpu pobl i weld pa wasanaethau symudol a band eang sefydlog sydd ar gael yn eu hardal.
- 1.5 Mae'r ffigurau darpariaeth symudol a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys cywiriadau i ddata ynghylch darpariaeth 3G EE a 4G Vodafone, yn sgil gwallau yn y data roedden nhw wedi'i gyflwyno. Mae'r cywiriadau hyn yn lleihau'r cyfrifiad a ragfynegwyd o ddarpariaeth 3G EE<sup>3</sup>, ac yn cynyddu'r cyfrifiad a ragfynegwyd o ddarpariaeth 4G Vodafone (tudalen 4 ymlaen). Mae cywirdeb y data a roddir i ni o dan ein pwerau ffurfiol yn fater difrifol iawn i Ofcom, ac yn sgil y cywiriadau hyn, rydym wedi penderfynu mynd ati'n ffurfiol i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn.

---

<sup>1</sup> <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research/connected-nations-update-spring-2018>.

<sup>2</sup> <https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/advice/ofcom-checker>.

<sup>3</sup> Yn yr ardaloedd gwledig y cafodd darpariaeth EE ei rhagfynegi'n rhy uchel yn bennaf.

### Pryd fyddwn ni'n casglu'r data ar gyfer ein hadroddiadau?

- Roedd Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2017, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mis Mai 2017 (darpariaeth band eang sefydlog) ac ym mis Mehefin 2017 (darpariaeth symudol).
- Roedd ein diweddariad blaenorol yn ystod y gwanwyn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mis Ionawr 2018.
- Mae'r diweddariad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mis Mai 2018.
- Bydd yr Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd llawn nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, a bydd yn seiliedig ar ddata ynghylch y ddarpariaeth a gasglwyd ym mis Medi 2018.
- Mae'r dyddiadau yn y ffigurau a'r tablau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at yr adeg y cafodd y data ei gasglu.

## Band eang sefydlog

- 1.6 **Mae darpariaeth band eang ffeibr llawn yn y DU wedi cynyddu ers y diweddariad diwethaf i oddeutu 5% o eiddo.** Yn ein diweddariad yn ystod y gwanwyn, fe wnaethom nodi bod gan dros filiwn o eiddo fynediad i fand eang ffeibr llawn (wedi cynyddu o'r 840,000 yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2017). Ers hynny, mae wedi cynyddu eto i oddeutu 1.4 miliwn (tua 5% o'r holl eiddo). Mae'r cynnydd hwn yn deillio o fuddsoddiadau gan ddarparwyr cyfathrebiadau mawr a bach. Gall rhwydweithiau ffeibr llawn ddarparu cyflymderau uwch (1Gbit yr eiliad neu fwy) sy'n fwy dibynadwy, a chynnig perfformiad mwy cyson, gyda chyflymderau tebycach i'r rheini sy'n cael eu hysbysebu. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hybu rhagor o fuddsoddiad mewn ffeibr llawn – gan gynnwys cyflwyno rheolau newydd i'w gwneud yn haws ac yn rhatach i gwmnïau osod rhwydweithiau ffeibr llawn newydd<sup>4</sup>. Rydym felly'n disgwyl i argaeledd ffeibr llawn barhau i gynyddu.
- 1.7 **Mae nifer yr eiddo lle nad oes modd cael band eang teilwng wedi gostwng oddeutu 70,000.** Ni all oddeutu 860,000 eiddo yn y DU gael band eang â chyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o leiaf, sef y fanyleb ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bu gostyngiad cyson yn nifer yr eiddo yn y DU sydd ddim yn gallu cael band eang teilwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ostwng o 1.6 miliwn (6%) ym mis Mai 2016 i 1.1 miliwn (4%) flwyddyn yn ddiweddarach, ac yna i 860,000 (o dan 3%) ym mis Mai 2018.
- 1.8 Er y bydd y niferoedd hyn yn parhau i ostwng wrth i gwmnïau gyflwyno gwasanaethau cyflymach mewn rhagor o ardaloedd, mae llawer o bobl yn y DU yn methu cael cysylltiad band eang teilwng. O dan ddeddfwriaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, bydd

<sup>4</sup> Mae ein dull gweithredu wedi'i amlinellu yn ein Safbwynt Polisi Strategol: Sicrwydd rheoleiddiol i gefnogi buddsoddiad mewn band eang ffeibr llawn - <https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/telecoms-competition-regulation/regulatory-certainty-investment-full-fibre>.

cartrefi a busnesau heb fynediad at fand eang teilwng, ac sy'n bodloni'r nodweddion sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth honno, yn gallu gofyn am gysylltiad hyd at drothwy o £3,400 ar gyfer costau. Erbyn hyn, Ofcom sy'n gyfrifol am roi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar waith, ac mae wedi bod yn ymgynghori â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â sut bydd y cynllun yn cael ei gyflawni<sup>5</sup>. Yn nes ymlaen eleni, byddwn ni'n cynnig pwy ddylai gael eu dynodi'n Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, ynghyd â'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol y dylent gydymffurfio â nhw. Rydym ni'n disgwyl gwneud ein penderfyniadau terfynol erbyn haf 2019.

- 1.9 **Mae nifer yr eiddo sy'n gallu derbyn band eang cyflym iawn wedi cynyddu hefyd.** Yn ein diweddariad yn ystod y gwanwyn, fe wnaethom bwysleisio bod argaeledd band eang cyflym iawn, rydym ni'n ei ddiffinio fel cyflenwad sydd â chyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad o leiaf, yn 27.2 miliwn. Mae hyn wedi cynyddu i 27.3 miliwn, sy'n dal yn 93% o'r cyfanswm.<sup>6</sup>
- 1.10 **Mae'r ddarpariaeth gyflym iawn ar draws y gwledydd wedi cynyddu mewn modd tebyg.** Mae'r ddarpariaeth gyflym iawn, ar sail ein diffiniad uchod, wedi cynyddu yng Nghymru, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon hefyd, ond mae'r canrannau'r un fath â'r rhai yn niweddariad y gwanwyn: Cymru 92%, Lloegr 94%, Yr Alban 91% a Gogledd Iwerddon 88%.
- 1.11 **Mae darpariaeth gwasanaethau gwibgyswllt, gyda chyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad o leiaf, wedi cynyddu hefyd.** Gall 14 miliwn (48%) o'r eiddo yn y DU dderbyn y gwasanaethau hyn erbyn nawr, sy'n gynydd o'r 10.6 miliwn (36%) ym mis Mai 2017, a hynny'n bennaf yn sgil uwchraddio rhwydwaith Virgin Media yn ogystal â'r ffaith bod mwy o rwydwaith FTTP a'i wasanaethau ar gael.
- 1.12 **Bydd ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd llawn nesaf yn cynnwys data gan set ehangach o sefydliadau, ac yn rhoi darlun cliriach o ddarpariaeth band eang yn y DU.** Dros yr haf, rydym wedi bod yn gweithio ar gynyddu'r ystod o gwmnïau rydym yn casglu gwybodaeth ganddyn nhw am ddarpariaeth rhwydweithiau. Bydd adroddiadau Cysylltu'r Gwledydd yn y dyfodol yn cynnwys data gan ystod ehangach o rwydweithiau ffeibr llawn llai, yn ogystal â mwy o'r rheini sy'n cynnig datrysiadau Mynediad Di-wifr Sefydlog<sup>7</sup>. Rydym yn parhau â'n gwaith er mwyn dod i ddeall potensial Mynediad Di-wifr Sefydlog yn well o ran cynnig gwasanaethau band eang dibynadwy o safon uchel, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â goblygiadau i waith Ofcom o roi Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang Llywodraeth y DU ar waith. Os bydd mwy o rwydweithiau o'r fath ar gael, gallai hyn arwain at fwy o ddewis i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig. Mae disgwyl i'r ffynonellau gwybodaeth newydd hyn, ynghyd â darparwyr cyfathrebiadau yn cyflwyno rhagor o rwydweithiau, gyfrannu'n gadarnhaol at y ffigurau ynghylch darpariaeth band

---


<sup>5</sup> Fe wnaethom gyhoeddi ein 'Gwahoddiad i fynegi diddordeb mewn bod yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang' ym mis Mehefin: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/implementing-broadband-uso>. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar y broses o ddynodi Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol: [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0011/120404/Implementing-the-Broadband-Universal-Service-Obligation.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/120404/Implementing-the-Broadband-Universal-Service-Obligation.pdf).

<sup>6</sup> Ni ddylid drysu rhwng y ffigur hwn â'r targed a bennwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2018, sef darpariaeth band eang 24/Mbit yr eiliad mewn 95% o eiddo.

<sup>7</sup> Mae Mynediad Di-wifr Sefydlog yn defnyddio cysylltiadau radio pwynt i bwynt yn hytrach na chebl.

eang y byddwn yn adrodd arnynt yn ein hadroddiad llawn ddiwedd y flwyddyn. Gallai hynny hefyd arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr eiddo nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang teilwng.

**Ffigur 1: Darpariaeth gwasanaethau band eang sefydlog yn y DU ers mis Mai 2015**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2015 – Mai 2018

\* Amcan o'r lefelau darpariaeth cyn mis Mai 2017

## Gwasanaethau symudol

1.13 Mae ffigurau darpariaeth symudol a ddarperir yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd yn seiliedig ar ddata gan y cwmnïau symudol, ac mae'r ffigurau darpariaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys cywiriadau i ddata ynghylch darpariaeth 3G EE a 4G Vodafone. Yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2017 (Rhagfyr), a'r diweddariad interim cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018, fe wnaethom nodi bod gwahaniaethau posib rhwng ein mesuriadau ni a rhai o'r cryfderau signal a ragfynegwyd gan EE. Roedd mesuriadau prawf Ofcom wedi canfod efallai bod EE wedi rhagfynegi ei ddata lefel signal 3G 2100 MHz yn rhy uchel. Mae profion mwy diweddar gan EE wedi canfod lefel debyg o ragfynegi'n rhy uchel. Gan ystyried hyn, mae EE wedi ailgyflwyno rhagfynegiadau o lefelau signal ar gyfer ei wasanaethau 3G 2100 MHz er mwyn llunio data ar ddarpariaeth symudol ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r cywiriad hwn yn lleihau darpariaeth 3G EE o'r hyn a gofnodwyd yn flaenorol.

1.14 Ar wahân i hynny, rydym wedi canfod yn fwy diweddar bod y lefelau signal ar gyfer gwasanaethau 4G Vodafone wedi cael eu rhagfynegi'n rhy isel o bosib. Mae hyn wedi cael

- ei gadarnhau gan Vodafone, a'i gywiro ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r ffactor cywiro yn cynyddu darpariaeth Vodafone, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau data<sup>8</sup>1.1 .
- 1.15 Yn y dangosfwrdd sy'n grynodeb o'r adroddiad hwn, rydym wedi darparu ailddatganiad o'r ffigurau darpariaeth a ddarparwyd yn ein dau adroddiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2017 ac ym mis Ebrill 2018 (o'r data a roddwyd ym mis Mehefin 2017 ac ym mis Ionawr 2018 yn y drefn honno), yn seiliedig ar ddata wedi'i gywiro gan EE a Vodafone. Mae'r ffigurau a gafodd eu cyhoeddi'n wreiddiol wedi'u cynnwys hefyd. Bydd ailddatganiad mwy cyflawn o lefelau hanesyddol y ddarpariaeth symudol yn cael ei ddarparu yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2018, a fydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.
- 1.16 Rydym hefyd wedi defnyddio'r data wedi'i gywiro a ddisgrifir uchod ar gyfer lefelau signal EE a Vodafone i lunio'r wybodaeth ynghylch darpariaeth sy'n ymddangos ar fapiau gwirio darpariaeth ar-lein Ofcom ac yn yr ap gwirio darpariaeth.
- 1.17 Hefyd, rydym ni'n bwriadu cyflwyno ailddatganiad hanesyddol o'r data ar ddarpariaeth symudol a ddarparwyd mewn adroddiadau blaenorol gan ddefnyddio'r cywiriadau hyn, yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2018 a gaiff ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.
- 1.18 Mae cywirdeb y data a gyflwynir yn fater difrifol iawn i ni, wrth ystyried pa mor bwysig yw hynny wrth lunio polisiâu a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth. Yn sgil y cywiriadau hyn, rydym wedi penderfynu mynd ati'n ffurfiol i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn. Hefyd, byddwn ni'n defnyddio profion i barhau i fonitro cywirdeb rhagfynegiadau darpariaeth pob un o'r cwmnïau.
- 1.19 **Rydym yn parhau i ddefnyddio mesurau i ddiffinio darpariaeth symudol sy'n adlewyrchu profiad go iawn defnyddwyr gwasanaethau symudol.** Rydym yn diffinio darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n debyg o roi profiad teilwng i ddefnyddwyr ffonau clyfar<sup>9</sup>:
- a) **Galwadau ffôn:** Dylai bron pob un galwad ffôn 90 eiliad o hyd gael ei chwblhau heb ymyrraeth;
  - b) **Gwasanaethau 4G:** Gwell gwasanaethau data a llais, lle dylai bron pob cysylltiad ddarparu cyflymder o 2Mbit yr eiliad o leiaf a chysylltiad llais dibynadwy. Mae hyn yn ddigon cyflym i bori'r rhyngwrwyd a gwyllo fideos symudol yn ddi-rwystr.
- 1.20 Rydym ni wedi defnyddio data torfol<sup>10</sup> o ffonau symudol defnyddwyr a mesuriadau prawf er mwyn canfod lefel y signal sydd ei hangen i gyrraedd y targedau hyn o leiaf 95% o'r amser. Rydym hefyd wedi parhau i wneud yn siŵr bod cwmnïau gwasanaethau symudol yn darparu'r lefelau signal maen nhw wedi eu rhagfynegi.

---

<sup>8</sup> Mae ffactor cywiro o 6dB wedi'i roi.

<sup>9</sup> Rydym hefyd yn cyflwyno adroddiad ar wasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn cyflymder is. Adroddir ar y rhain ar y cyd â gwasanaethau data 4G cyflymder is (ar sail trothwy signal targed is) lle maent yn debygol o ddarparu cyflymder cysylltu o 200kb yr eiliad o leiaf, ar gyfer bron pob cysylltiad. Mae'r cysylltiadau hyn yn debygol o fod yn ddigon i gefnogi gwasanaethau data cyflymder is fel pori ar y we yn hytrach na fideo â chydaniad uwch.

<sup>10</sup> Mae data torfol yn golygu defnyddio data gan lawer iawn o bobl ac, yn yr achos penodol hwn, eu ffonau symudol. Mae'r data hwn yn cael ei gasglu'n awtomatig ac ar gael ar gyfer ei ddadansoddi.




- 1.21 Mae'r ffordd rydych chi'n mesur darpariaeth yn bwysig, ond mae *lle'r* ydych chi'n mesur hynny'n bwysig hefyd. Er mwyn adlewyrchu'r manau lle mae defnyddwyr yn debygol o ddefnyddio eu ffôn symudol, rydym ni'n edrych ar y ddarpariaeth mewn tair ffordd:
- a) **Awyr agored:** Cyfran yr arwynebedd daearyddol lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn yn yr awyr agored. Mae'r mesuriad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio ffôn yn llwyddiannus yn yr awyr agored.
  - b) **Dan do:** Cyfran yr eiddo lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn. Mae'r mesuriad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio ffôn yn llwyddiannus gartref neu yn y gwaith.
  - c) **Ffyrdd:** Cyfran y rhwydwaith o ffyrdd A a B lle gall rhywun ddefnyddio ei ffôn wrth deithio mewn cerbyd. Mae'r mesuriad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio ffôn yn llwyddiannus wrth deithio mewn cerbyd rhwng lleoliadau.
- 1.22 **Mae darpariaeth symudol yn yr awyr agored yn gyffredinol wedi gwella, ond mae'r gwelliannau'n amrywio'n sylweddol rhwng cwmnïau, ac nid yw chwarter y DU yn cael darpariaeth gan bob cwmni.** Mae saith deg saith y cant o arwynebedd daearyddol y DU yn gallu cael darpariaeth gan y pedwar cwmni ar gyfer galwadau ffôn, sy'n gynydd o'r 69% ym mis Mehefin 2017<sup>11</sup>. Mae mynediad yn yr awyr agored at wasanaethau data o safon deilwng drwy 4G wedi cynyddu hefyd, o 48% i 64% dros yr un cyfnod<sup>12</sup>. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng cwmnïau, ac yn ein diweddariad ym mis Rhagfyr rydym yn bwriadu darparu gwybodaeth fanylach i ddefnyddwyr mewn perthynas â'r amrywiaeth hon.

---

<sup>11</sup> Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys galwadau llais dros wasanaethau LTE 4G.

<sup>12</sup> Mae mynediad at wasanaethau data yn yr awyr agored drwy 3G a 4G, (lle mae gan bron pob cysylltiad fynediad at gyflymder cysylltu o 200kbit yr eiliad o leiaf) wedi cynyddu mewn modd tebyg. Erbyn hyn, mae gan 82% o arwynebedd daearyddol y DU wasanaeth data symudol gan bob un o'r pedwar cwmni, sy'n gynydd o'r 69% ym mis Mehefin 2017.


**Ffigur 2: Darpariaeth gwasanaethau symudol yn yr awyr agored yn y DU gan bob cwmni ers mis Mehefin 2017**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2017 – Mai 2018 (wedi ailddatgan ym mis Medi 2018)*

**1.23 Mae darpariaeth dan do mewn eiddo yn y DU ar gyfer gwasanaethau llais yn fwy na 90%. Mae gan 92% o eiddo'r DU ddarpariaeth galwadau ffôn dan do gan y pedwar rhwydwaith symudol, sy'n gynydd o'r 89% ym mis Mehefin 2017.**

**Ffigur 3: Darpariaeth gwasanaethau symudol dan do yn y DU gan bob cwmni ers mis Mehefin 2017**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2017 – Mai 2018 (wedi ailddatgan ym mis Medi 2018)*

- 1.24 **Mae gan dri chwarter y cartrefi a'r busnesau yn y DU ddarpariaeth 4G dan do gan bob cwmni.** Mae gan saith deg chwech y cant o eiddo'r DU signal 4G teilwng gan bob cwmni erbyn hyn, sy'n gynydd o'r 64% ym mis Mehefin 2017<sup>13</sup>.
- 1.25 **Mae modd cael darpariaeth gan bob cwmni ar gyfer galwadau ffôn ar hyd tri chwarter y ffyrdd yn y DU.** Mae modd cael darpariaeth gan bob cwmni ar gyfer galwadau ffôn ar hyd saith deg pump y cant o ffyrdd A a B y DU erbyn hyn, sy'n gynydd o'r 66% ym mis Mehefin 2017. Ar y 25% o'r ffyrdd sy'n weddill, bydd darpariaeth ar gael gan lai na phedwar cwmni, sy'n golygu bod y gallu i wneud neu dderbyn galwad ffôn yn dibynnu ar ba rwydweithiau sydd ar gael mewn gwahanol leoliadau. Os bydd damwain neu ddigwyddiad ar y ffordd, gellir gwneud galwadau brys ar unrhyw rwydwaith symudol sydd ar gael, o ganlyniad i gytundebau rhannu rhwydwaith sydd ar waith gan gwmnïau gwasanaethau symudol. Does dim darpariaeth ar gyfer galwadau gan unrhyw gwmni ar gael ar oddeutu 3% o ffyrdd A a B y DU, sy'n ostyngiad o'r 5% ym mis Mehefin 2017.

<sup>13</sup> Mae mynediad dan do at wasanaethau data drwy 3G a 4G, (lle mae gan bron bob cysylltiad fynediad at gyflymder cysylltu o 200kbit yr eiliad o leiaf) gan bob un o'r cwmnïau wedi cynyddu mewn modd tebyg; mae gan 98% o eiddo yn y DU wasanaeth data symudol gan bob un o'r cwmnïau, sy'n gynydd o'r 94% ym mis Mehefin 2017.

**Ffigur 4: Darpariaeth o ran gwasanaethau symudol ar ffyrdd A a B yn y DU gan bob cwmni ers mis Mehefin 2017**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata cwmnïau, Mehefin 2017 – Mai 2018 (wedi ailddatgan ym mis Medi 2018)*

- 1.26 **Mae'r darlun yn amrywio rhwng cwmnïau a rhwng gwledydd.** Er bod y broses barhaus o gyflwyno gwasanaethau 4G wedi arwain at welliannau, mae darpariaeth symudol yn dal yn waeth yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban nag ydyw yn Lloegr. Mae hyn yn anfodddhaol, ac mae angen gwneud mwy i wella'r ddarpariaeth yn y gwledydd.
- 1.27 Mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng cwmnïau rhwydweithiau symudol ac yn dal yn wael mewn nifer o lefydd – dim ond 56% a 36% o'r ardal ddaeryddol yng Nghymru a'r Alban, yn y drefn honno, sy'n cael gwasanaethau 4G o safon deilwng gan bob cwmni, o'i gymharu â 76% yng Ngogledd Iwerddon ac 81% yn Lloegr.
- 1.28 **Rhwymedigaethau ar gyfer darpariaeth yw un o ddulliau Ofcom o wella darpariaeth symudol.** Mae dyfarnu tonnau awyr yn y band sbectrwm 700 MHz i wasanaethau symudol yn un o blith nifer o gamau posib a allai wella'r ddarpariaeth. Rydym wedi nodi cynigion i gyflwyno rhwymedigaethau newydd ar gwmnïau sydd eisiau cael mynediad i'r tonnau awyr hyn – gan gynnwys opsiynau i fynnu gwell darpariaeth – ac rydym yn ystyried ymatebion i ymgynghoriad cysylltiedig ar hyn o bryd. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar gynigion ar gyfer rhwymedigaethau yn nes ymlaen eleni.

Rydym hefyd yn cydnabod na fydd rhwymedigaethau darpariaeth ar eu pen eu hunain yn datrys holl broblemau darpariaeth symudol y DU, ac rydym yn dal i weithio gyda llywodraethau a'r diwydiant ar fesurau pellach i helpu i wella gwasanaethau symudol i bobl a busnesau ledled y DU.

## 2. Dangosfyrddau

Yn yr adran hon, mae'r ffigurau yn ymgorffori'r holl ffactorau a'r cywiriadau a ddisgrifiwyd yn gyharach yn yr adroddiad hwn. Y ffigurau yn y cromfachau yw'r rheini a nodwyd mewn adroddiadau a diweddariadau Cysylltu'r Gwledydd blaenorol.

### Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – y DU

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn y DU o fis:		
	Mai 2018 ymlaen	Ionawr 2018 ymlaen	Mai 2017 ymlaen
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch na hynny	97% 28.5 miliwn	97% 28.4 miliwn	97% 28.3 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (cyflym iawn)	93% 27.3 miliwn	93% 27.2 miliwn	91% 26.7 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (gwibgyswllt)	48% 14.0 miliwn	45% 13.2 miliwn	36% 10.6 miliwn
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn <sup>14</sup>	5% 1.4 miliwn	4% 1.2 miliwn	3% 840,000
Methu cael mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) <sup>15</sup>	3% 0.86 miliwn	3% 0.93 miliwn	4% 1.07 miliwn

<sup>14</sup> Ar hyn o bryd, dim ond os gellir eu cysylltu o fewn 14 diwrnod rydym ni'n ystyried bod eiddo'n cael gwasanaethau ffeibr llawn.

<sup>15</sup> Mae'n bosib bod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn y DU o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau 4G<sup>16</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni <sup>17</sup>	76%	74% <i>(68%)</i>	64% <i>(58%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	64%	62% <i>(57%)</i>	48% <i>(43%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	11%	12% <i>(13%)</i>	21% <i>(22%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	54%	52% <i>(45%)</i>	37% <i>(33%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	6%	7% <i>(8%)</i>	15% <i>(16%)</i>
<b>Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)<sup>18</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	92%	92% <i>(92%)</i>	89% <i>(90%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	77%	76% <i>(76%)</i>	69% <i>(70%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	6%	7% <i>(7%)</i>	9% <i>(9%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	75%	73% <i>(75%)</i>	66% <i>(68%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	4% <i>(3%)</i>	5% <i>(5%)</i>

<sup>16</sup> Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 2Mbit yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

<sup>17</sup> Mae'r ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth dan do yn yr adroddiad hwn yn ystyried effeithiau waliau, drysau, toeau ac ati a fydd yn lleihau neu'n blocio signalau symudol wrth iddynt symud trwyddynt. Rydym ni wedi tybio bod adeiladau'n blocio signalau symudol yn yr un ffordd (drwy leihau cryfder y signal 10dB). Mewn gwirionedd, bydd rhai adeiladau'n blocio signalau yn fwy nag eraill a byddwn yn ystyried hyn mewn diweddariadau dilynol.

<sup>18</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).

## Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Lloegr

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn Lloegr o fis:		
	Mai 2018 ymlaen	Ionawr 2018 ymlaen	Mai 2017 ymlaen
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch na hynny	98% 23.9 miliwn	98% 23.8 miliwn	97% 23.7 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (cyflym iawn)	94% 22.9 miliwn	94% 22.8 miliwn	93% 22.6 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (gwibgyswllt)	50% 12.2 miliwn	47% 11.5 miliwn	39% 9.5 miliwn
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn <sup>19</sup>	5% 1.2 miliwn	4% 1.02 miliwn	3% 800,000
Methu cael mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) <sup>20</sup>	3% 627,000	3% 677,000	3% 790,000

<sup>19</sup> Ar hyn o bryd, dim ond os gellir eu cysylltu o fewn 14 diwrnod rydym ni'n ystyried bod eiddo'n cael gwasanaethau ffeibr llawn.

<sup>20</sup> Mae'n bosib bod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn Lloegr o :		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 (gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 (gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)
<b>Gwasanaethau 4G<sup>21</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni <sup>22</sup>	77%	76% (69%)	67% (60%)
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	81%	79% (73%)	66% (60%)
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3% (3%)	5% (5%)
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	61%	60% (52%)	46% (40%)
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3% (4%)	7% (8%)
<b>Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)<sup>23</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	93%	93% (93%)	91% (91%)
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	91%	91% (91%)	87% (88%)
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% (1%)	2% (2%)
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	82%	82% (83%)	76% (78%)
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% (1%)	2% (2%)

<sup>21</sup> Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 2Mbit yr eiliad o leiaf.

<sup>22</sup> Mae'r ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth dan do yn yr adroddiad hwn yn ystyried effeithiau waliau, drysau, toeau ac ati a fydd yn lleihau neu'n blocio signalau symudol wrth iddynt symud trwyddynt. Rydym ni wedi tybio bod adeiladau'n blocio signalau symudol yn yr un ffordd (drwy leihau cryfder y signal 10dB). Mewn gwirionedd, bydd rhai adeiladau'n blocio signalau yn fwy nag eraill a byddwn yn ystyried hyn mewn diweddariadau dilynol.

<sup>23</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).



## Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Gogledd Iwerddon

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yng Ngogledd Iwerddon o fis		
	Mai 2018 ymlaen	Ionawr 2018 ymlaen	Mai 2017 ymlaen
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch na hynny	94% 721,000	94% 721,000	93% 718,000
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (cyflym iawn)	88% 675,000	88% 675,000	85% 658,000
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (gwibgyswllt)	38% 295,000	35% 266,000	25% 196,000
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	8% 63,200	8% 58,200	0.7% 5,600
Methu cael mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	6% 46,500	7% 50,500	7% 55,600

<sup>24</sup>

<sup>24</sup> Mae'n bosib bod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau 4G<sup>25</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	56%	56% (52%)	46% (44%)
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	76%	76% (72%)	63% (60%)
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3% (3%)	5% (6%)
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	47%	46% (39%)	29% (26%)
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	6%	6% (7%)	10% (12%)
<b>Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)<sup>26</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	80%	79% (81%)	75% (78%)
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	87%	87% (87%)	79% (83%)
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% (1%)	1% (1%)
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	67%	66% (69%)	55% (62%)
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3% (3%)	4% (4%)

<sup>25</sup> Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 2Mbit yr eiliad o leiaf.

<sup>26</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).

## Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Yr Alban

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yn yr Alban o fis:		
	Mai 2018 ymlaen	Ionawr 2018 ymlaen	Mai 2017 ymlaen
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch na hynny	95% 2.5 miliwn	95% 2.5 miliwn	95% 2.5 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (cyflym iawn)	91% 2.4 miliwn	91% 2.4 miliwn	87% 2.3 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (gwibgyswllt)	43% 1.12 miliwn	41% 1.08 miliwn	30% 797,000
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	3% 72,900	2% 62,900	0.7% 19,200
Methu cael mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	5% 130,800	5% 134,400	6% 154,800

<sup>27</sup> Mae'n bosib bod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn yr Alban o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau 4G<sup>28</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	74%	72% <i>(67%)</i>	57% <i>(53%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	36%	33% <i>(30%)</i>	19% <i>(17%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	25%	30% <i>(31%)</i>	50% <i>(52%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	39%	36% <i>(32%)</i>	20% <i>(18%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	15%	19% <i>(20%)</i>	37% <i>(28%)</i>
<b>Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G)<sup>29</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	91%	90% <i>(90%)</i>	86% <i>(87%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	52%	49% <i>(50%)</i>	39% <i>(40%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	16%	17% <i>(17%)</i>	23% <i>(22%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	57%	55% <i>(56%)</i>	44% <i>(46%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	8%	10% <i>(9%)</i>	15% <i>(15%)</i>

<sup>28</sup> Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 2Mbit yr eiliad o leiaf.

<sup>29</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).

## Darpariaeth symudol a band eang sefydlog – Cymru

Gwasanaethau band eang sefydlog	Darpariaeth mewn eiddo yng Nghymru o fis:		
	Mai 2018 ymlaen	Ionawr 2018 ymlaen	Mai 2017 ymlaen
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad neu uwch na hynny	96% 1.4 miliwn	96% 1.4 miliwn	95% 1.4 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (cyflym iawn)	92% 1.3 miliwn	92% 1.3 miliwn	89% 1.3 miliwn
Mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 300Mbit yr eiliad neu uwch na hynny (gwibgyswllt)	27% 393,000	23% 328,800	10% 144,000
Mynediad at wasanaethau ffeibr llawn	5% 75,400	5% 68,400	3% 44,500
Methu cael mynediad at gyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad (Isafswm y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol)	4% 61,000	4% 63,200	5% 73,800

<sup>30</sup> Mae'n bosib bod hyn yn eithrio gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Nghymru o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau 4G</b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	67%	64% <i>(52%)</i>	44% <i>(34%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	56%	51% <i>(45%)</i>	28% <i>(24%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	11%	12% <i>(12%)</i>	23% <i>(24%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	43%	39% <i>(32%)</i>	19% <i>(16%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	10%	12% <i>(12%)</i>	24% <i>(25%)</i>
<b>Gwasanaethau galwadau ffôn (2G, 3G a 4G) <sup>31</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	87%	86% <i>(86%)</i>	79% <i>(80%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	75%	73% <i>(73%)</i>	61% <i>(62%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	5% <i>(5%)</i>	9% <i>(9%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	68%	65% <i>(66%)</i>	51% <i>(53%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	6%	6% <i>(6%)</i>	10% <i>(9%)</i>

<sup>31</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).

### 3. Gwasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn – dangosfyrddau

I gynnig cymhariaeth hanesyddol ag adroddiadau blaenorol Cysylltu'r Gwledydd, mae'r dangosfwrdd hwn yn sôn am wasanaethau data 3G cenhedlaeth hŷn â chyflymder is. Adroddir ar y rhain ar y cyd â gwasanaethau data 4G â chyflymder is lle maent yn debygol o ddarparu cyflymder cysylltu o 200kbit yr eiliad o leiaf ar gyfer bron pob cysylltiad. Mae'r cysylltiadau hyn yn debygol o fod yn ddigon i gefnogi gwasanaethau data â chyflymder is, fel pori ar y we yn hytrach na gwyllo fideo â chydrianiad uwch.

#### Darpariaeth data symudol â chyflymder is – y DU

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn y DU o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 (gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 (gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)
<b>Gwasanaethau data 3G a 4G (200kbit yr eiliad)<sup>32</sup></b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	98%	97% (88%)	94% (85%)
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	82%	80% (70%)	69% (63%)
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	5%	6% (7%)	12% (12%)
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	86%	84% (65%)	73% (58%)
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	2%	3% (4%)	8% (7%)

<sup>32</sup> Dyma'r trothwyon ar gyfer data Sylfaenol: 3G (-100 dBm), 4G (-115 dBm). Mae'r rhain yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 200kbit yr eiliad o leiaf.

## Darpariaeth data symudol â chyflymder is – Lloegr

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn Lloegr o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau data 3G a 4G (200kbit yr eiliad)</b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	98%	98% <i>(89%)</i>	95% <i>(87%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	95%	95% <i>(86%)</i>	90% <i>(82%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% <i>(1%)</i>	2% <i>(2%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	93%	92% <i>(72%)</i>	85% <i>(67%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% <i>(1%)</i>	2% <i>(2%)</i>

## Darpariaeth data symudol â chyflymder is – Gogledd Iwerddon

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau data 3G a 4G (200kbit yr eiliad)</b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	92%	92% <i>(78%)</i>	87% <i>(75%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	94%	93% <i>(80%)</i>	87% <i>(76%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	0%	0% <i>(1%)</i>	1% <i>(2%)</i>



Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Ngogledd Iwerddon o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	86%	86% <i>(58%)</i>	76% <i>(54%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	1%	1% <i>(3%)</i>	2% <i>(4%)</i>

### Darpariaeth data symudol â chyflymder is – Yr Alban

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yn yr Alban o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau data 3G a 4G (200kbit yr eiliad)</b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	96%	95% <i>(87%)</i>	89% <i>(82%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	56%	53% <i>(42%)</i>	35% <i>(31%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	13%	16% <i>(18%)</i>	33% <i>(33%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	67%	62% <i>(50%)</i>	46% <i>(39%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	8%	11% <i>(11%)</i>	26% <i>(22%)</i>

## Darpariaeth data symudol â chyflymder is – Cymru

Gwasanaethau symudol	Darpariaeth yng Nghymru o:		
	Mai 2018 ymlaen	Ailddatganiad ar gyfer mis Ionawr 2018 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>	Ailddatganiad ar gyfer mis Mehefin 2017 <i>(gwreiddiol fel y cyhoeddwyd yn flaenorol)</i>
<b>Gwasanaethau data 3G a 4G (200kbit yr eiliad)</b>			
Eiddo (dan do) sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	94%	92% <i>(82%)</i>	80% <i>(73%)</i>
Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob cwmni	82%	79% <i>(70%)</i>	56% <i>(52%)</i>
Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	3%	3% <i>(5%)</i>	8% <i>(9%)</i>
Darpariaeth ar ffyrdd A a B gan bob cwmni	77%	73% <i>(60%)</i>	50% <i>(42%)</i>
Ffyrdd A a B sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw gwmni	4%	5% <i>(5%)</i>	12% <i>(10%)</i>